**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 22 Hydref 2024**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.* |
| **5** | DARPARIAETHAU CODI FFIOEDD AC AWDURDOD DIRPRWYEDIG - CYNLLUN TRWYDDEDU GORFODOL AR GYFER TRINIAETHAU ARBENNIG | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) mabwysiadu'r strwythur ffioedd a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer y Cynllun Trwyddedu Gorfodol Triniaethau Arbennig fel nodir yn Nhabl 1 Atodiad 2;*<br><br>*(b) dirprwyo'r swyddogaethau o dan y Rheoliadau newydd i'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad fel y nodir yn Atodiad 3;*<br><br>*(c) awdurdodi Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad i ddiwygio'r ffioedd a'r taliadau yn unol â'r cynllun statudol, fel bo'n briodol, o hyn ymlaen.*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **6** | STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU 2024 – 2029 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo mabwysiadu Strategaeth Rheoli Asedau 2024 – 2029 (Atodiad 1 yr adroddiad), a*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **7** | PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI / CARTREFI GWAG HIRDYMOR | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi a chymeradwyo polisi codi tâl y Cyngor ar gyfer 1 Ebrill 2025 fel y nodir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad, a*<br><br>*(b) cymeradwyo'r amserlen arfaethedig a nodir yn yr adroddiad i adolygu'r polisi ar gyfer 2026/27.* |
| **8** | Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG AR GYFER 2025/26 - 2027/28 | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig sydd yn Atodiadau 1 a 3 yr adroddiad;*<br><br>*(b) nodi'r cynigion arbedion cynnar ar gyfer pennu cyllideb 2025/26 fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad, a*<br><br>*(c) nodi'r gwaith parhaus i bennu cyllideb gytbwys yn 2025/26.* |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2024/25 a'r cynnydd ar y strategaeth y cytunwyd arni.* |
| **10** | SYSTEM RHEOLI GWYBODAETH GOFAL CYMDEITHASOL NEWYDD - DYFARNU CONTRACT | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo'r adroddiad Dyfarnu Contract sydd ynghlwm yn Atodiad 2 yr adroddiad, a*<br><br>*(b) parhau i gefnogi cyfranogiad Sir Ddinbych yn y rhaglen genedlaethol Cysylltu Gofal.* |
| **11** | RHAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** nodi rhaglen waith y Cabinet.* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 22 Hydref 2024**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|